***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 Rhif 1118 (Cy. 232)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2018

*Gwnaed - - - - 27 Hydref 2018*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pŵer a roddwyd iddynt gan adran 39(4) o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013([1]), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2018.

**Diwrnod Penodedig**

**2.** Y diwrnod a bennir fel y diwrnod y daw'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (y gosodwyd copi o ddrafft ohono gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 17 Medi 2018) i rym yw 1 Tachwedd 2018.

*Kirsty Williams*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru

27 Hydref 2018

(**1**) 2013 dccc 1.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu 1 Tachwedd 2018 fel y diwrnod y daw'r Cod Trefniadaeth Ysgolion ("y Cod") a ddyroddwyd gan Weinidogion Cymru o dan adrannau 38 a 39 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ("DSThY 2013") i rym.

Mae'r Cod yn disodli'r Cod Trefniadaeth Ysgolion a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2013.

Mae'r Cod yn gosod gofynion ac yn cynnwys canllawiau sy'n nodi nodau, amcanion neu faterion eraill mewn perthynas â chynigion trefniadaeth ysgolion a wnaed o dan Ran 3 o DSThY 2013. O dan adran 38(4) o DSThY 2013, dyletswydd Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a phersonau eraill, wrth arfer swyddogaethau o dan Ran 3 o DSThY 2013, yw gweithredu yn unol ag unrhyw ddarpariaethau perthnasol yn y Cod. Yn ogystal, rhaid i unrhyw berson arall, wrth arfer unrhyw swyddogaeth at ddiben cyflawni swyddogaethau gan Weinidogion Cymru, awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol a gynhelir o dan y Rhan honno, weithredu yn unol ag unrhyw ddarpariaethau perthnasol yn y Cod.